Gwasanaeth Ymlyniad Gwent
Gwent Attachment Service

# Rhyngymwybodolrwydd



Mae **Rhyngymwybodolrwydd** yn disgrifio profiad **rhwng dau berson** sy'n teimlo'n **gysylltiedig**. Maent yn **rhannu teimladau,** y ddau'n **canolbwyntio ar yr un peth,** a chyda'r **un bwriad.** Drwy brofiadau cynnar o ryngymwybodolrwydd y mae plentyn yn dysgu am ei hunan, am eraill ac am y byd (MGM).

**Er enghraifft:**

**Mae Dad yn chwarae pêl-droed gyda'i fab Tom, yn yr ardd**

Profiad Dad

- Gwych, na'i flino fe!
- Dwi mor falch bod Tom yn hoffi pêl-droed
- Dwi wedi ymlâdd yn barod

Mae hyn yn hwyl

Profiad Tom

Dwi'n caru pêl-droed

- Mae Dad yn dda yn gôl
- Sgwn i beth sydd i de

- Fel gallwch chi weld, mae profiad Dad a Tom o'u hymwneud â'i gilydd yn amrywio rhywfaint.
- Pan fo'u profiadau yr un fath, er enghraifft mae'r ddau yn cael hwyl, maen nhw'n profi rhyngymwybodolrwydd ac yn teimlo cysylltiad
- Nid yw pob profiad yn rhyngymwybodol, ond mae'n bwysig cydnabod pan nad yw'n digwydd o gwbl

**Ymarfer:**
**Allwch chi feddwl am brofiad rhyngymwybodol gawsoch chi?**

**Beth sy'n rhwystro rhyngymwybodolrwydd?**

**Sylwer**:

Ni all profiadau rhyngymwybodol ddigwydd drwy'r amser - cofiwch y cysyniad o ofal sy'n "ddigon da".